WG35.5.73

"Coffadwriaeth y Cyfiawn sy fendigedig."

# MARWNAD

ER GALARUS GOF

AM Y

## PARCH. MORGAN HOWELLS,

TREDEGAR.

Yr hwn fu farw dydd Sabboth, Mawrth 21ain, 1852,
ar ol bod yn Weinidog ffyddlon a pharchus gyda'r
Trefnyddion Calfinaidd am hir flynyddau
ac a fawr berchid gan bod Enwad
trwy Ddeau a Gogledd.

CAERDYDD.

ARGRAFFWYD GAN J. F. ARNOLD, HEOL-Y-BUTE.

1852.

X805 31006X

# MAWRNAD &c.

NEWYDD marw glywaf beunydd,
  Ar hyd ein gwledydd, gwn yn glir,
Mae angau creulon, trist mynegu,
  Wedi tori i mewn i'n tir!
Anelodd un o wylwyr Sion,
  Oedd benaf gwron yn y gair,
Hwn fu drwy Gymru yn dwys bregethu,
  Ac yn moli Baban Mair.

Clywaf lu a'u dwys ochenaid,
  Yn dweyd, a'u llygaid heddyw'n lli,
Ein Morgan Howells enwog anwyl,
  A gadwai noswyl gyda ni;
Darfu a'i daith, a'i waith orphenodd,
  Yn gwylio'r mur nis gwelir mwy,
Hedodd adref at ei Briod,
  I seinio ei glod am farwol glwy'.

Un enwog oedd o deulu Sion,
  Am dano'n ffyddlon bydd coffâd,
Mor ddiwyd safodd at ei broffes,
  Gwnaeth ddirfawr les o fewn i'w wlad,
Lluddain, Le'rpwl, Bristol, Amwythig,
  Sy'n galaru'u colled mawr,
A Thredegar a'r Casnewydd
  Eu henwog lywydd aeth i lawr!

Fe oedd un o'r gweision penaf,
  Fu yn y Bala drwy fawr boen;
Mewn lludded corff, er hyny yn rhyfedd,
  Dadguddia rinwedd gwaed yr Oen;
Ar ddydd Sasiwn fe draddodai,
  Am frwydr fawr Calfaria a fu,
Pan hoiliwyd Iesu Grist rhwng lladron,
  Nes byddai llefain mawr trwy'r llu.

Yr oedd ei lais fel udgorn arian,
  Gosodai allan ewyllys Duw:
Dangosai rym y codwm erchyll,
  A Meddyg rhad i ddynolryw;
Arweiniai ddyn o fynydd Sina,
  O ganol mellt ar taranau trist,

I ben Calfaria, man dymunol—
    At aberth grasol Iesu Grist.

Bu megys lamp mewn ogof dywell,
    Fe weithiai'u ddidwyll yn ei ddydd,
Yn argyoeddi anuwiolion,
    Fe barai'n ffyddlon yn y ffydd;
Troes lu o gablwyr yn weddiwyr,
    Tua gweithiau Merthyr a phob man,
Ac adeiladodd lawer eglwys,
    A welwyd gynt yn llesg a gwan.

Bu Morgan Howells dros y Cymry,
    Yn ymdrechu am hir dro,
At glirio'r capel yn Nghasnewydd,
    Ymdeithiai'n brudd drwy lawer bro;
Fe ga'dd dy cwrdd y Cymry gwiwglod,
    Yn rhydd o'r ddyled hynod hon;
Pe cymerasid hwn gan Saeson,
    Hyn wnaethai'n bruddion lawer bron.

Bu Morgan Howells yn weinidog,
    Mwyn a serchog yn ei sir.
Holl Fethodistiaid trwy sir Fynwy,
    A gofiant hyny amser hir;
Trwy sir Forganwg a Brycheiniog,
    Wrth gofio am yr enwog wr,
A sir Gaerfyrddin, gwn yn ddiau,
    Yr wylant ddagrau heilltion ddwr.

Trwy Aberystwyth a Langeitho.
    Bydd miloedd yn ei gofio'n gu,
Yn mhob Sasiwn wrth ei glywed,
    Y byddai llefain mysg y llu;
Roedd yn rymus ei bregethiad,
    Tan arddeliad y gwir Dduw
Mawr elyn oeddd i deyrnas satan—
    Ymdrechai ei ran dros ddynolryw.

Eglwysi'r Gogledd aeth yn sydyn,
    Yn awr yn drist ar hyn o dro,
Mae hoff drigolion Mon ac Arfon,
    Yn awr yn bruddion yn eu bro;
A thrwy sir Dinbych, Fflint, a Merion,
    A Threfaldwyn dirion daeth,
'Rol colli Morgan Howells mawrglod.
    Ryw ddirfawr syndod megys saeth.

Ymladdai gyda chledd yr Ysbryd,
   Gan bara'n ddiwyd yn ei ddydd,
Tra parai ei oes dangosai ddynion,
   Waed Crist yn ffynon cywir ffydd;
Er bod cawri uffern obry
   Arno yn gwgu lawer gwaith,
Ymdrechu wnaeth dros deyrnas Iesu,
   Nes diweddu pen ei daith.

Pedwerydd dydd ar ddeg pregethodd,
   O Fawrth nes ydoedd pawb yn syn,
Am berson Crist, mae llu a dystiant,
   A gwerthfawr fraint Calfaria fryn;
A'r geiriau olaf ganddo a glywsant,
   Mae llu a gofiant tra b'ont byw,
Fod arno chwant o'i babell briddlyd,
   I gael ei ddatod at ei Dduw,

Ni chafodd ef ond byr o gystudd,
   Ar ei ol mawr sobrwydd sydd,
Ond iddo ef y troes glyn angau,
   Yn hyfryd dirion oleu ddydd;
Yn mhen yr wythnos i'r un diwrnod,
   Fe aeth o fyd y trallod trist,
Trwy afon angau, 'r gelyn ingol,
   Yn nghwmni grasol Iesu Grist,

Aeth o wlad drygfyd adre i drigfan,
   Y nefol hyfryd Ganaan gu,
At Jones, Llangan, a Charles o'r Bala,
   I foli am fraint; Calfaria fry;
At John Elias Lloyd Beaumaris,
   A Méistr Evans o'r New Inn,
A lluoedd llon o, weision Iesu,
   Hawdd fyddai enwi mwy na hyn.

Er rhoddai i orphwys yn y gravel,
   Mae Morgan Howells mewn gwir hedd,
Ei enaid sydd mewn nefol gwmni,
   A'i gorff gaiff bydru yn y bedd;
Yr Arglwydd a barto yn fuan,
   Ryw un o'i ail iw winllan E',
Eliseus i wisgo yn addas
   Hen fantell Elias yn ei le.

WILLIAM MORRIS, Athraw ysgol Sabothol, Rhymny

'Roedd yn ei ddrychfeddyliau,
 Rhyw 'stôr o synwyr mawr,
'R hyn fyddai'n destun syndod
 I'w frodyr lawer awr;
(" Doethineb oddiuchod,
 Un foneddigaidd yw,")
Gwir ddysgodd ostyngeiddrwydd,
 Hardd arwydd delw Duw.

Fe gofir am ei enw
 Adroddir am ei waith,
Yn mhlith hiliogaeth Gomer,
 Tros hir flynyddau maith;
Gŵr cywir yn ei gynghor,
 Am feddyginiaeth rhâd,
Er attal pob gwahanglwyf,
 Yn rhwydd trwy rîn y gwa'd.

Mae Sïon egwan etto
 Heb sychu ei dagrau'n llwyr,
Rhyw riddfan ac och'neidio
 Sy'n para o foreu hyd hwyr;
Rhow'd testun Och! gan angeu
 'R un dydd in' deulu'r Groes,
Trwy ladd ein brawd a'n blaenor,
 O!'r briw i'n calon roes.

'N llon yn ei law'r arweiniai
 Y praidd i faesydd brâs
Y gair, ac at ffynnonau
 Gwiw addewidion grâs;
'Mgeleddai'r hen fammogiaid,
 Gwrandawai ar eu cwyn,
Meithrinai weiniaid Sïon,
 'N ei fynwes megys ŵyn.

'Fe dd'wedwyd gan ei frodyr,
 Bod yn mhob man do'i 'fe,
Rhyw arwydd llawn tangnefedd,
 Yn tremio'n llond y lle;